

# **Papur sail resymegol dros gynnwys Hybiau Strategol a Pharc Tirweddau'r Cymoedd yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**

## **Hybiau Strategol**

Mae Tasglu'r Cymoedd yn rhan o ymrwymiad hirdymor i wella bywydau'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd. Mae hybiau strategol yn gam gweithredu pwysig o fewn ein cynllun cyflawni 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol' ac yn un o gonglfeini'r thema 'Swyddi a Sgiliau'. Maen nhw wedi'u diffinio fel meysydd a fydd yn ganolbwynt fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus, sydd yna'n rhyddhau cyfalaf preifat ac yn creu swyddi, cyfleoedd a chreu cyfoeth ledled Cymoedd y De.

Yr egwyddor y tu ôl i sefydlu'r hybiau strategol yw bod modd creu'r effaith fwyaf wrth dargedu buddsoddiad ar ychydig o lefydd penodol am gyfnod hir o amser, yn hytrach na'r dull 'gwasgaredig' o rannu cyllid yn rhy fân hwnt ac yma i wneud unrhyw wahaniaeth amlwg.

Roedd lleoliad yr hybiau strategol yn seiliedig ar sawl peth gwahanol; dwysedd poblogaeth, lefelau amddifadedd a gweithgareddau busnes cyfredol. Yna, fe wnaethom ychwanegu'r amseroedd teithio - ac mae'n data ni'n dangos bod 80% o gymunedau mwyaf difreintiedig y Cymoedd yn gallu cyrraedd o leiaf un hyb strategol o fewn 45 munud ar drafndiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn cynyddu i 93% o fewn 60 munud ar drafndiaeth gyhoeddus.

Ers cyhoeddi 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol' ym mis Gorffennaf 2017, mae awdurdodau lleol wedi llywio'r broses o ddiffinio eu hybiau strategol er mwyn ategu cyfleoedd lleol a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Yna, lluniwyd rhestr o brosiectau blaenoriaeth er mwyn creu glasbrint buddsoddi ar gyfer pob hyb.

Cafodd sawl seminar hyb strategol eu cynnal wedyn rhwng mis Tachwedd 2017 ac Ionawr 2018, lle gwahoddwyd rhanddeiliaid i drafod, herio a chraffu ar syniadau yn ymwneud â phrosiectau arfaethedig a chadarnhau blaenoriaethau.

Rhagwelir y bydd y prosiectau mwyaf dylanwadol i'w cefnogi yn ystod gweddill tymor y Cynulliad hwn wedi'u nodi erbyn mis Mai 2018. Dyma gam 1 y prosiect, gyda cham 2 (2021-2026) a cham 3 (2026-2031) i ddod.

## **Parc Tirweddau'r Cymoedd**

Nod datblygu Parc Tirweddau'r Cymoedd yw sbarduno balchder yn y Cymoedd a helpu cymunedau lleol i ddathlu a defnyddio'r adnoddau naturiol a'n treftadaeth ddiwydiannol a diwylliannol i'r eithaf.

Gweledigaeth y Parc yw bod y Cymoedd yn rhywle y gall pobl fod yn falch o'i alw'n gartref, a rhywle y mae busnesau yn dewis gweithio. Y nod yw sicrhau cymunedau sydd wedi'u grymuso i ddangos balchder yn eu hamgylchedd sy'n hwylus, o fewn cyrraedd i bawb ac yn cael ei ddefnyddio'n eang.

Trwy drafodaethau â grwpiau cymuned, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill, rydym wedi datblygu cynnig drafft sy'n cyflwyno amcanion y Parc yn ogystal â

chyfres o egwyddorion arweiniol. Mae hefyd yn nodi'r tair thema a fydd yn pwysleisio'r gwaith i gyflawni'r parc tirweddau. Byddwn yn profi'r syniad ymhellach trwy gynnal cyfres o ddiwyddiadau ymgysylltu cyn diwedd mis Ebrill 2018. Mae'r amcanion, yr egwyddorion arweiniol a'r themâu i'w gweld isod.

### **Amcanion**

- Buddsoddi yn asedau diwylliannol naturiol a diwylliannol (cysylltiedig) y Cymoedd er mwyn cyflawni manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gwell i'r Cymoedd a'r dinas-ranbarthau ehangach.
- Grymuso cymunedau lleol i ddathlu treftadaeth naturiol a diwylliannol y rhanbarth a gwneud yn fawr o'i botensial
- Cynnig cyfleoedd hamdden rhagorol a hygyrch er mwyn gwella iechyd a llesiant pobl leol
- Meithrin ymdeimlad o falchder bro yn y Cymoedd sy'n gyrchfan atyniadol i ymwelwyr ac sy'n sbarduno buddsoddiad
- Gwella canol trefi'r Cymoedd fel lleoedd bywiog, gyda mannau gwyrdd deniadol sy'n cynnal economïau lleol

### **Egwyddorion arweiniol**

- Galluogi a grymuso
- Cydweithio
- Arloesol, uchelgeisiol, o'r radd flaenaf
- Cysylltiedig a chydawns
- Cadarn, hyblyg ac amrywiol

### **Themâu**

- Tirwedd, Diwylliant, Hunaniaeth
- Hamdden a Lles
- Cymunedau a Menter

Bydd Parc Tirweddau'r Cymoedd yn rhan o'r ffin fel y diffiniwyd hi yng nghynllun cyflawni Ein Cymoedd, Ein Dyfodol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus wrthi'n ystyried opsiynau dynodi tir. Rhaid bod ymrwymiad hirdymor i gyflawni a chynnal Parc Tirweddau'r Cymoedd er mwyn gwireddu ei weledigaeth a'i fanteision yn llawn. Mae profiad parciau rhanbarthol tebyg eraill yng ngweddill y DU ac Ewrop yn enwedig, yn awgrymu y byddai cydnabyddiaeth ffurfiol fel parc ystyrion pendant yn sicrhau'r stamp a'r ddelwedd angenrheidiol i bartneriaid, cymunedau, ymwelwyr a busnesau i'w denu a'u cynnwys yn effeithiol, a gwireddu'r manteision hyn. Gall hyn gymryd amser, fodd bynnag, ac mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cynnig cyfle i gyflwyno'r egwyddorion y bydd rhaid i unrhyw gynlluniau llynu at weledigaeth Parc Tirweddau'r Cymoedd.

### **Pam y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?**

Nid oes gan Dasglu'r Cymoedd cyllid penodol ar gyfer yr hybiau strategol neu Barc Tirweddau'r Cymoedd, ond mae'n torri tir newydd o ran gwaith trawslywodraethol. Mae wedi sicrhau ymrwymadau ariannol gan Lywodraeth Cymru, ac yn gweithio'n

agos gyda dwy fargen ddinesig y De er mwyn cyd-fynd â phenderfyniadau buddsoddi a'u hategu.

Trwy gynnwys egwyddor yr hybiau strategol a Pharc Tirweddau'r Cymoedd yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, byddai'n darparu'r mecanwaith i sicrhau eu bod nhw'n rhan o gynlluniau hirdymor (glasbrint buddsoddi 15 mlynedd). Yna, byddem yn profi pob Cynllun Datblygu Lleol neu Ranbarthol/Strategol yn erbyn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i sicrhau eu bod nhw'n ei gefnogi.

Byddai hyn yn peri bod angen ystyried a chraffu'n ofalus ar unrhyw fuddsoddiadau sylweddol arfaethedig y tu allan i'r hybiau strategol a Pharc Tirweddau'r Cymoedd, oherwydd y gallai lesteirio'r hyn y gellir ei gyflawni.